# Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013

**2013 dccc 2**

*Mesurau diogelu ar gyfer busnesau bwyd*

## 13 Talu costau ailsgoriad

(1) Os yw cais am ailsgoriad wedi ei wneud gan weithredwr sefydliad busnes bwyd, rhaid i awdurdod bwyd benderfynu costau rhesymol yr ailsgoriad.

(2) Cyn gwneud yr ailsgoriad, rhaid i'r awdurdod bwyd hysbysu'r gweithredwr am gostau'r ailsgoriad ac am y ffordd y cafodd y costau eu cyfrifo.

(3) Rhaid i weithredwr sefydliad busnes bwyd dalu costau yr ailsgoriad.

(4) Caiff awdurdod bwyd ei gwneud yn ofynnol i'r taliad gael ei wneud cyn bod yr ailsgoriad yn cael ei wneud.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 13 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 27(2)**

**I2** A. 13 mewn grym ar 28.11.2013 gan O.S. 2013/2617, **ergl. 3(h)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, Adran 13.